Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 15 GORFFENNAF, 2025 am 2.00 o'r gloch yp | | TUESDAY, 15 JULY, 2025 at 2.00 pm |
| CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNOGR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | | HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THORUGH ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518 | Committee Officer |

**ELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John Ifan Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Douglas Fowlie;, Derek Owen, Liz Wood

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Mrs Wenda Owen- (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Sedd Wag/Vacant Seat - (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Sedd Wag/Vacant Seat-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod**

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2025.

**4 HEDDLU GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 11 - 22)

Derbyn cyflwyniad gan y Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru.

**5 COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 23 - 32)

Derbyn cyflwyniad gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

**6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2025/2026** (Tudalennau 33 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2025

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowlie, John Ifan Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Dylan Rees, Sonia Williams a Liz Wood

**Aelodau Portffolio**

Y Cynghorydd Gary Pritchard - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd
Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg;

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 3),
Rheolwr y Sector Cynradd - Addysg (ar gyfer eitem 4),
Rheolwr Polisi a'r Gymraeg (ar gyfer eitem 3),
Prif Reolwr Datblygu Economaidd (THJ) (ar gyfer eitem 5),
Rheolwr Rhaglen (EM) (ar gyfer eitem 5)
Rheolwr Sgriwtini (AD)
Swyddog Sgriwtini (EA),
Swyddog Pwyllgorau (MEH),
Cynorthwyydd Gwasanaethau Democratiaeth (CH) (gweddarlledu)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Ken Taylor;
Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig)

Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai

Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Pennaeth Democratiaeth,

**HEFYD YN BRESENNOL:** Aelodau Portffolio

Y Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;
Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Douglas M Fowlie a Liz Wood i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Dymunodd y Cadeirydd yn dda i'r Cynghorydd Jeff Evans, cyn Aelod o'r Pwyllgor hwn, sydd wedi cael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Fe wnaeth y Cadeirydd hefyd longyfarch Mrs Mared Lewis, gwraig y Cynghorydd Dafydd Roberts ar gael ei derbyn i'r Orsedd.

## 1 DATGAN BUDDIANT

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

## 2 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gofnod cywir:-

- Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2025;
- Cofnodion y cyfarfod i Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2025.

**Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror, 2025 - Eitem 4 - Adolygu'r Polisi Iaith Gymraeg**

**Gweithred:** Anfon llythyr at Lywodraeth Cymru i ofyn am ddeddfwriaeth newydd i warchod enwau lleoedd Cymraeg hanesyddol, a phwysleisio'r angen am ddeddfwriaeth o'r fath.

Dywedodd y Cadeirydd bod ymateb wedi'i dderbyn gan yr Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn cymeradwyo'r camau a gymerwyd gan yr Awdurdod drwy'r Polisi Iaith Gymraeg. Mae ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod enwau lleoedd hanesyddol Cymraeg yn cael eu gwarchod.

## 3 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YR IAITH GYMRAEG - 2024 I 2025

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried a chyflwyno sylwadau i'r Aelod Portffolio cyn iddo gael ei gymeradwyo ganddo dan bwerau dirprwyedig a'i gyhoeddi.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Gymraeg bod rhaid i'r Cyngor baratoi Adroddiad Blynyddol ar ei gydymffurfiaeth â'r Safonau yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015. Dywedodd bod mwy o staff wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn a bod y Cyngor wedi derbyn cefnogaeth gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at y ffaith ei bod hi'n galonogol bod cynnydd o 200% yn nifer y Swyddogion ac Aelodau etholedig sydd wedi derbyn hyfforddiant i wella eu sgiliau iaith Gymraeg. Yn ddiweddar cafodd sesiwn ymwybyddiaeth newydd ar gyfer dysgwyr a siaradwyr hyfedr ei beilota gan Iaith Cyf. Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol cael adborth yn dilyn y sesiynau hyn a holwyd a fyddai sesiynau pellach ar gael maes o law. Nodwyd hefyd y dylid gwahodd Aelodau Etholedig i'r sesiynau hyn i ddathlu ymdrechion dysgwyr. Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg bod yr adborth yn dilyn y Sesiwn Hyfforddiant hwn wedi bod yn galonogol a bod y rheiny a fynychodd wedi gwerthfawrogi'r cyfle. Nododd bod Tîm Hyfforddi'r Adran Adnoddau Dynol yn ystyried cynnal sesiwn tebyg yn y dyfodol. Mae'r sesiynau i ddathlu ymdrechion dysgwyr yn rhoi cyfle i gefnogi dysgwyr i ymarfer a siarad Cymraeg mewn amgylchedd mwy naturiol yn hytrach na lleoliad ffurfiol. Mae'r Tiwtoriaid yn gosod tasg i'r dysgwyr megis trefnu gweithgareddau ac ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg. Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg bod cyfle i Aelodau Etholedig a Staff fynychu sesiynau cyffredinol i wella sgiliau iaith o fewn y Cyngor.
- Holwyd i ba raddau mae'r Cyngor yn colli cyfle drwy ganolbwyntio ar recriwtio staff sydd eisoes yn medru'r Gymraeg, yn hytrach nag ystyried ymgeiswyr sydd methu siarad Cymraeg neu ddysgwyr, a allai elwa o'r hyfforddiant iaith sy'n cael ei gynnig gan y Cyngor. Holwyd hefyd ynglŷn â'r gost ariannol o ail-hysbysebu rolau am y trydydd tro am nad ydi'r gofynion iaith wedi cael eu bodloni. Mewn ymateb dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg bod y Cyngor yn cynnig cyfleoedd hyfforddi i staff sy'n siaradwyr Cymraeg dihyder. Mae'r 5 maen prawf sy'n mesur y gofynion iaith ar gyfer ymgeisio am swyddi o fewn y Cyngor yn ddibynnol ar ofynion iaith a chyfrifoldebau'r swydd ynghyd â'r angen i ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd yn eu hiaith ddewisol. Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid nad oes costau ychwanegol yn gysylltiedig ag ail-hysbysebu swyddi o fewn yr Awdurdod gan fod swyddi'n cael eu hysbysebu ar wefan y Cyngor.
- Holwyd sut mae'r Cyngor yn gwerthuso'r gofynion iaith ar gyfer swyddi a p'un a yw'r cymhwyster TGAU Cymraeg yn cael ei fesur. Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg bod y lefel iaith yn cael ei asesu ar gyfer y rôl yn seiliedig ar y dyletswyddau. Mae'r polisi recriwtio'n nodi'r disgwyliadau'n glir ar gyfer pob rôl ac mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddisgrifio ei sgiliau iaith Gymraeg ar y ffurflen gais. Caiff gallu ieithyddol ei asesu yn ystod y broses gyfweld.
- Cyfeiriwyd at y 'data recriwtio' yn yr adroddiad sy'n nodi'r swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl gofynion iaith. Holwyd a yw'r 'data recriwtio' yn seiliedig ar hunanasesiad gan staff o'u gallu ieithyddol gan nad yw'n ofynnol cael cymhwyster TGAU ar gyfer swyddi o fewn y Cyngor. Mewn ymateb eglurodd y Prif Weithredwr bod rhaid i ymgeiswyr ddarparu copi o'u tystysgrifau TGAU cyn cael cyfweliad i ddangos eu bod yn gymwys. Mae'r broses gyfweld yn cadarnhau sgiliau iaith ymgeiswyr yn y Gymraeg a'r Saesneg ynghyd ag unrhyw gymwysterau eraill ar gyfer rolau unigol y fewn y Cyngor. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod y 'data recriwtio' yn dangos na chafodd unrhyw swyddi eu hysbysebu lle nad oedd angen unrhyw sgiliau iaith Gymraeg. Holwyd pe byddai modd hysbysebu swyddi fel swyddi Cymraeg hanfodol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys. Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg bod modd i reolwyr nodi'r gofynion iaith Gymraeg wrth hysbysebu swyddi o fewn y Cyngor. Aeth ymlaen i ddweud bod y Cyngor

yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i staff o bob gallu, fodd bynnag, mae hynny'n ddibynnol ar y rôl.

- Holwyd i ba raddau mae'r polisi iaith Gymraeg yn berthnasol i ddefnydd mewnol ymysg staff. Dywedodd y Prif weithredwr mai'r ymrwymiad personol yw'r peth pwysicaf wrth ddysgu'r Gymraeg. Mae dysgu Cymraeg yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol o fewn y Cyngor ac o'r herwydd mae mwy o staff yn dewis cymryd rhan yn y cyrsiau hyfforddi sy'n cael eu darparu gan y Cyngor. Holwyd hefyd ynglŷn â'r disgwyliadau ar staff i ymateb i e-byst a gohebiaeth yn iaith ddewisol yr unigolyn. Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg bod y Polisi Iaith Gymraeg yn cyfeirio ar weinyddiaeth fewnol y Cyngor a'i fod yn berthnasol i bob aelod o'r staff ac y dylid ymateb i ohebiaeth fewnol yn iaith ddewisol yr unigolyn.
- Holwyd i ba raddau y gellid cynnwys gwybodaeth fanylach yn yr adroddiad er mwyn cymharu lefelau sgiliau o'r naill flwyddyn i'r llall ynghyd â sgiliau iaith Gymraeg pob adran. Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i gynnwys cymariaethau ychwanegol o un flwyddyn i'r llall o ran sgiliau Cymraeg ei staff gan ei fod yn dymuno bod yn Awdurdod sy'n cael ei lywio gan ddata ac mae dashfwrdd wedi cael ei greu i fonitro patrymau a thueddiadau.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr Adroddiad Blynyddol yn nodi bod 3% o staff y Cyngor heb unrhyw sgiliau iaith Gymraeg. Holwyd p'un a yw'r rhain yn weithwyr newydd a oedd heb gael cyfle i fynychu cyrsiau iaith eto neu a oedd wedi dewis peidio cymryd mantais ar y cyrsiau iaith sy'n cael eu cynnig gan y Cyngor. Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg bod % y staff sydd wedi nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau iaith Gymraeg yn seiliedig ar hunanasesiad a bod gan y rhan fwyaf o'r staff sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol. Aeth ymlaen i ddweud y bydd y gwaith sy'n cael ei gwblhau gan y Tîm Hyfforddi i gael gwell trosolwg o sgiliau iaith Gymraeg a chynnydd y staff yn darparu dadansoddiad mwy cynhwysfawr mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.
- Holwyd a yw'r arfer dda gan y Cyngor o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei rannu â chyrff eraill a sefydliadau trydydd sector. Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg bod Grŵp Prosiect wedi cael ei sefydlu gan Gomisiynydd y Gymraeg sy'n cydnabod sefydliadau a all gefnogi, rhannu a hyrwyddo'r Gymraeg gyda sefydliadau eraill.
- Holwyd pam nad yw'r gwasanaeth cyfieithu dogfennau ar gael i Aelodau Etholedig. Mewn ymateb dywedodd y Prif Weithredwr nad oes gan dîm cyfieithu'r Gwasanaethau Democrataidd gapasiti i dderbyn llwyth gwaith ychwanegol gan fod galw mawr am wasanaeth cyfieithu tesun a chyfieithu ar y pryd o fewn y Cyngor. Nododd y gallai'r datblygiadau ym maes Deallusrwydd Artiffisial fod yn arf yn y dyfodol. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn dymuno diolch i'r Tîm Cyfieithu am ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o safon uchel yn ystod cyfarfodydd a gwasanaeth cyfieithu dogfennau i Bwyllgorau'r Cyngor.
- Holwyd i ba raddau mae'r gofynion iaith Gymraeg yn ystod y broses recriwtio yn effeithio ar safon yr ymgeiswyr. Mewn ymateb dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg ei fod o'r farn bod yr Awdurdod yn llwyddo i ddenu unigolion i ymgeisio am swyddi gyda'r Cyngor oherwydd eu bod yn gallu gweithio mewn amgylchedd Gymraeg a chael cyfle i wella eu sgiliau iaith Cymraeg drwy fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.
- Cyfeiriwyd at yr adroddiad a'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg yn y Cynllun Strategol Caffael. Holwyd a yw'r flaenoriaeth a roddir i'r Gymraeg yn y

Strategaeth Caffael yn wendid. Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg bod disgwyliad i gefnogi darparwyr lleol gan eu bod yn deall y cyd-destun ieithyddol lleol ac yn gallu darparu gwasanaethau dwyieithog.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg - 2024 i 2025**
- **Nodi ei gynnwys ac anfon sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini at yr Aelod Portffolio cyn iddo gael ei gymeradwyo ganddo dan bwerau dirprwyedig a'i gyhoeddi.**

## 4 CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG: 2024/2025 - MESUR CYNNYDD

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg mai pwrpas yr adroddiad yw darparu diweddariad blynyddol ar y cynnydd yn gysylltiedig â Chynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg. Nododd bod Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg yn mesur effeithlonrwydd y Cynllun o ran cwrdd â'r 7 Deilliant. Mae'r adroddiad ar gyfer 2024/2025 yn nodi bod Deilliant 1, 2, 3, 5, a 6 yn sefydlog ond bod Deilliant 4 a 7 wedi dirywio.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at Ddeilliant 4 sy'n nodi bod gostyngiad wedi bod yng nghanran y disgyblion sy'n astudio'r cymhwyster TGAU Cymraeg iaith gyntaf a bod mwy'n cofrestru ar y cwrs ail iaith. Cyfeiriwyd hefyd at Ddeilliant 7 sy'n nodi bod dirywiad wedi bod yn nifer yr athrawon Cymraeg ac athrawon a all ddysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Holwyd a oes rheswm dros y tueddiadau hyn. Mewn ymateb dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg mai'r ffocws yw helpu disgyblion i gyrraedd eu potensial. Nododd bod y cwrs TGAU iaith gyntaf ac ail iaith ar gael i ddisgyblion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd newidiadau'n cael eu cyflwyno yn ystod y ddwy flynedd nesaf a bydd yr arholiadau Iaith a Llenyddiaeth yn cael eu cyfuno i greu un cymhwyster TGAU ar gyfer disgyblion mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog. Bydd y cwrs TGAU ail iaith yn cael ei ddileu a bydd cwrs TGAU newydd yn cael ei greu ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion Saesneg. Aeth ymlaen i ddweud bod recriwtio staff dysgu yn her genedlaethol a bod camau penodol wedi cael eu cymryd i weithio'n agos â Phrifysgol Bangor i amlygu'r cyfleoedd posib yn y sector addysg. Dywedodd yr Uwch Reolwr Addysg Gynradd bod cyfarfodydd strategol rheolaidd yn cael eu cynnal gyda swyddogion recriwtio o Brifysgol Bangor a chynrychiolydd o'r Ysgol Addysg a'r Ysgol Seicoleg. Mae gwaith ar y cyd yn digwydd gyda CaBan, sef partneriaeth rhwng ysgolion a Phrifysgol Bangor.
- Holwyd pa gefnogaeth ychwanegol fydd ar gael i Ysgol Uwchradd Caergybi i'w helpu i gyrraedd y targed uchelgeisiol o ddod yn Ysgol Categori 3 erbyn mis Medi 2029. Mewn ymateb dywedodd yr Uwch Reolwr Addysg Gynradd bod y Gwasanaeth Dysgu'n rhan ganolog o'r gwaith i ddarparu cymorth ehangach i

Ysgol Uwchradd Caergybi. Sefydlwyd Grŵp Prosiect WESP ym mis Mai 2024, sy'n canolbwyntio'n benodol ar sefydlu dosbarth blwyddyn 7 Categori 3, canolfan iaith sydd hefyd yn cefnogi dysgu'r Dyniaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a rhaglen benodol i gefnogi'r staff dysgu. Dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg bod y Panel Sgriwtini Addysg wedi ymweld ag Ysgol Uwchradd Caergybi yn ddiweddar a'u bod wedi gweld pa mor barod yw'r ysgol i hyrwyddo'r Gymraeg. Roedd siaradwyr Cymraeg hyderus ym mlwyddyn 7 a'r gobaith yw y bydd hynny'n parhau ym Mlwyddyn 8.

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod 3 ysgol yn nalgylch Caergybi wedi gofyn am gymorth ychwanegol yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Holwyd ynglŷn â'r meini prawf ar gyfer ysgolion eraill ar yr ynys o ran cael cymorth ychwanegol gyda'r Gymraeg gan fod nifer o ddisgyblion yn dod o aelwydydd Saesneg. Mewn ymateb dywedodd yr Uwch Reolwr Addysg Gynradd bod y Gwasanaeth Dysgu'n gweithio'n agos gydag ysgolion i lunio blaenoriaethau blynyddol. Mae'r Gwasanaeth Dysgu'n sicrhau bod darpariaeth briodol ar waith i gefnogi ysgolion unigol. Mae gwaith ar y gweill gyda Swyddog Siarter Iaith Gwynedd a Môn i fynd i'r afael â blaenoriaethau ysgolion unigol.
- Cyfeiriwyd at y ffaith ei bod hi'n ymddangos bod llai o Gymraeg yn cael ei siarad yn Ysgol Uwchradd Caergybi ar ôl blwyddyn 8. Holwyd sut y gallai'r Gwasanaeth Dysgu fynd i'r afael â'r tueddiadau hyn. Mewn ymateb dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ei bod hi'n hanfodol bwysig rhoi cyfle i bobl ifanc siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol. Dywedodd yr Uwch Reolwr Addysg Gynradd bod aelod staff o'r Ganolfan Iaith yn gweithio yn yr ysgol ac yn dysgu'r Dyniaethau er mwyn cynyddu'r capasiti dysgu yn yr ysgol. Codwyd cwestiynau pellach ynglŷn ag ystyried darparu cymorth gyda'r Gymraeg mewn dalgylchoedd eraill yn ogystal gan y gallai'r Gymraeg ddirywio yn yr ardaloedd hyn hefyd. Mewn ymateb dywedodd yr Uwch Reolwr Addysg Gynradd bod modd i aelod o'r Ganolfan iaith ymweld ag unrhyw ysgol sydd angen cymorth. Nododd bod y Siarter Iaith yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac y tu allan i'r ysgol. Yn ddiweddar derbyniodd Ysgol David Hughes Achrediad Siarter Iaith a bydd ysgolion eraill hefyd yn ceisio ennill yr achrediad hwn yn y dyfodol. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr ei bod hi'n bwysig nodi mai ysgolion unigol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Gymraeg a chynnig yr addysg orau bosib. Holwyd a oes problemau tebyg yn gysylltiedig â'r Gymraeg yn y 4 ysgol uwchradd arall ar yr Ynys o ran trosglwyddo plant o ysgolion cynradd. Mewn ymateb dywedodd yr Uwch Reolwr Addysg Gynradd nad oes unrhyw broblemau penodol wedi cael eu codi yn ystod trafodaethau â'r 4 ysgol uwchradd arall ond y bydd y mater yn cael ei godi yn ystod fforymau strategol.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod y Gwasanaeth Dysgu'n defnyddio'r Grant Addysg Llywodraeth Leol dan yr is-bennawd Grant Cymraeg 2050 i gefnogi'r canolfannau iaith a'i fod yn defnyddio cyllid grant i gynyddu'r ddarpariaeth i ymgysylltu ag ysgolion uwchradd. Holwyd ynglyn â'r risgiau cysylltiedig pe byddai unrhyw newid i'r grant ar ôl 2025. Mewn ymateb dywedodd yr Uwch Reolwr Addysg Gynradd bod y Grant Addysg Llywodraeth Leol yn grant blynyddol ac y byddai'n fanteisiol pe byddai'n darparu sicrwydd am gyfnod o dair blynedd fel y gellid blaen gynllunio darpariaeth y Canolfannau Iaith.
- Holwyd ynglyn â'r amser aros ar gyfer anfon disgyblion i'r Canolfannau Iaith a'r gost yn gysylltiedig â chludo disgyblion i'r canolfannau hyn. Mewn ymateb dywedodd yr Uwch Reolwr Addysg Gynradd bod 40 disgybl ar y rhestr aros yn

barhaus a bod 96 disgybl yn mynychu'r Canolfannau Iaith yn flynyddol. Nododd bod y Ganolfan Iaith ar gael i blant sy'n symud i fyw i'r Ynys. Mae staff y Canolfannau Iaith yn mynd i'r ysgol cyn ac ar ôl i'r plentyn fynychu'r Ganolfan Iaith. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod danfon disgyblion i'r Ganolfan Iaith yn gostus a bod yr adran yn ceisio ymestyn y ddarpariaeth i leihau costau teithio.

- Nodwyd y dylai staff dysgu fod yn ymwybodol o'r Sesiynau Ymwybyddiaeth iaith i'w galluogi i ddysgu am hanes yr iaith a diwylliant Cymru. Dywedodd yr Uwch Reolwr Addysg Gynradd ei fod yn ddiolchgar o gefnogaeth y Fforwm Iaith ac y gellid gwella'r sesiynau ymwybyddiaeth i staff dysgu.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr adroddiad yn amlygu risg i gapasiti ysgolion o ran parhau i drochi ac integreiddio disgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg yn effeithiol yn y prif lif. Holwyd a oes data ar gael i ddeall y sefyllfa'n well. Dywedodd yr Uwch Reolwr Addysg Gynradd bod 40 disgybl yn aros i fynd i'r Ganolfan Iaith. Mae staff y Canolfannau Iaith wedi bod yn cefnogi pob ysgol yn ystod y tymor hwn.

**PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad ar Gynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg Ynys Môn: data 2024/2025**

**GWEITHRED: Gwneud cais i Lywodraeth Cymru ystyried darparu'r Grant Addysg Llywodraeth Leol am gyfnod o dair blynedd fel y gallir blaen gynllunio darpariaeth y Canolfannau Iaith.**

## 5 CYLLID LLYWODRAETH Y DU (RHAGLEN FFYNIANT BRO YNYS MÔN) - MESUR CYNNYDD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i'r Pwyllgor ei ystyried.

Adroddodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd mai hwn yw'r pumed diweddariad i'r Pwyllgor a'i fod yn amlinellu'r cynnydd o ran cyflawni'r Rhaglen ar gyfer Trawsnewid Caergybi gyda chyllid Llywodraeth y DU.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Holwyd ynglyn â'r swyddi a grëwyd gan y rhaglen. Dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd bod 52 swydd lawn amser wedi cael ei chytuno fel rhan o'r rhaglen gyda Llywodraeth y DU ac y bydd nifer y swyddi a grëwyd yn dod yn amlwg pan fydd y cynllun yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth 2026. Nododd bod y contractwyr a benodwyd i gwblhau'r gwaith wedi cyflogi gweithwyr ychwanegol. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen bod 12 swydd lawn amser wedi cael ei chreu fel rhan o'r Rhaglen.
- Holwyd ynglyn â'r costau cynyddol, effaith hynny ar ddeilliannau, p'un a yw'r deilliannau'n dal i fod yn gyraeddadwy a p'un a yw'r risg hwn wedi cael ei godi'n ffurfiol gyda Llywodraeth y DU. Mewn ymateb dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd bod y risg yn gysylltiedig â chostau cynyddol yn sgil chwyddiant yn effeithio ar bris deunyddiau a bod hynny wedi'i nodi fel risg gan y Bwrdd Rhaglen ar ddechrau'r broses. Nododd bod

trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda phartneriaid cyflawni a bod rhai elfennau yn gysylltiedig â'r prosiect wedi cael eu dileu oherwydd costau.

- Holwyd p'un a oedd busnesau'n barod i feddiannu'r unedau sydd wedi cael eu hadeiladu fel rhan o'r rhaglen a ariannwyd gyda chyllid Llywodraeth y DU. Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Rhaglen bod busnesau wedi ymgeisio drwy broses agored ac y bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal gyda'r busnesau sydd wedi dangos diddordeb. Bydd y busnesau llwyddiannus yn cael prydlesu'r unedau am flwyddyn yn fwy na thebyg. Holwyd p'un a yw blwyddyn o brydles yn ddigonol a p'un a fydd yn rhaid i'r busnesau ail-dendro am yr unedau a p'un a yw'r brydles tymor byr wedi effeithio ar nifer y busnesau a ymgeisiodd. Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Rhaglen y bydd y busnesau llwyddiannus yn cael eu monitro yn ystod y flwyddyn ac yna'n cael cynnig ymestyn y brydles. Nododd nad oedd y cynnig o flwyddyn o brydles wedi effeithio ar y diddordeb yn yr unedau hyn a bod nifer o fusnesau wedi dangos diddordeb.
- Holwyd pa sicrwydd y gellir ei roi na fydd costau'n effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth, a p'un a oes digon o adnoddau ariannol i reoli'r cynnydd mewn costau. Mewn ymateb dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd ei fod yn Aelod o'r Bwrdd Rhaglen a bod y Bwrdd yn sicrhau bod ansawdd y gwaith yn diwallu gofynion y Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth y DU.
- Holwyd p'un a yw'r tân diweddar yn Eglwys Cybi Sant yn peri risg ariannol a p'un a fydd yn effeithio ar amserlen y prosiect. Mewn Ymateb dywedodd y Rheolwr Rhaglen nad yw'r tân diweddar wedi effeithio ar Eglwys Cybi Sant ond bod rhywfaint o ddifrod i'r Wal Rufeinig, ond ni fydd hyn yn effeithio ar y cyllid ar gyfer y prosiect.
- Holwyd p'un a oes bwriad i gynnal rhagor o ddigwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus yn y dyfodol. Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Rhaglen y bydd digwyddiad ymgysylltu cyhoeddus yn cael ei gynnal tuag at ddiwedd y flwyddyn i adrodd ar y gwaith yn gysylltiedig â'r prosiectau.
- Holwyd i ba raddau mae Esgobaeth Bangor wedi cyfrannu at y gwaith yn Eglwys Cybi Sant a p'un a fyddant yn parhau i gyfrannu at y costau cynnal a chadw yn y dyfodol. Mewn ymateb dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd bod Esgobaeth Bangor yn bartner ac wedi cyfrannu 22% o'r gost. Yn sgil y cynnydd mewn costau mae eu cyfraniad wedi cynyddu i 24% yn ddiweddar. Bydd Esgobaeth Bangor yn cyfrannu at y costau cynnal a chadw yn y dyfodol. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi holi yn ystod Sesiwn Briffio yn ddiweddar fel rhan o'r Rhaglen a Ariennir gan Lywodraeth y DU p'un a yw'r Swyddogion yn fodlon bod gan yr Eglwys yng Nghymru'r llywodraethiant gofynnol gan fod adroddiadau o ddiffyg llywodraethiant o fewn yr Eglwys yng Nghymru yn y wasg yn ddiweddar. Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Rhaglen bod yr heriau a wynebir gan Esgobaeth Bangor wedi cael eu hystyried. Nododd bod gan yr Esgobaeth Dîm Rheoli fel rhan o'r prosiect ar gyfer Eglwys Cybi Sant a bod nifer o'r materion a godwyd wedi cael eu datrys.

**PENDERFYNWYD:-**

- Nodi'r cynnydd o ran darparu'r Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth y DU ar gyfer Caergybi.
- Nodi bod y Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth y DU ar gyfer Caergybi yn cael ei gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU;

- Cydnabod rôl barhaus y Cyngor o ran cefnogi Partneriaid Darparu'r Rhaglen.

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AR GYFER 2025/2026

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn manylu ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2025/2026.

**PENDERFYNWYD cytuno'r fersiwn gyfredol o'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2025/26.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.35 pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE



# Partneriaeth Strategol – Heddlu Gogledd Cymru
# Strategic Partnership – North Wales Police

Prif Gwnstabl / Chief Constable Amanda Blakeman KPM
Uwch Arolygydd / Superintendent Arwel Hughes

# Trosolwg Sefydliadol


- **Sefydlwyd Heddlu Gogledd Cymru ym 1974** ar ôl uno heddluoedd sirol gyda'i gilydd
- Mae gan yr heddlu gyllideb flynyddol o **£211.842m** (2025/2026)
- Rydym yn cyflogi:
- **1737** swyddog
- **1158** o staff
- **194** o SCCH



# Organisational overview

- **North Wales Police was established in 1974** after merging county constabularies together
- The force has an annual budget of **£211.842M** (2025/2026)
- We employ :
- **1737** officers
- **1158** staff
- **194** PCSOs

# Staffio Ynys Môn Ynys Môn Staffing



*Yn gwneud gogledd Cymru y lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU / Making north Wales the safest place to live, work and visit in the UK*






# Y Prif Gwnstabl

- Y  Prif Gwnstabl yw pennaeth Heddlu Gogledd Cymru, deiliad y rheng uchaf.
- Mae’r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am bob mater gweithredol o fewn yr heddlu.
- Mae’r Prif Gwnstabl yn adrodd i’r Bwrdd Gweithredol Strategol, sy’n cael ei oruchwylio gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, sydd yn ei dro yn adrodd i’r Panel Heddlu a Throsedd. Mae’r system hon o adrodd yn sicrhau trosolwg ac atebolrwydd am weithredoedd yr heddlu.



# The Chief Constable

- The Chief Constable is the head of North Wales Police, holding the most senior rank.
- The Chief Constable is responsible for all operational matters within the force.
- The Chief Constable reports into the Strategic Executive Board, which is overseen by the Police and Crime Commissioner, who in turn reports into the Police and Crime panel. This system of reporting ensures oversight and accountability for the force’s actions.

# Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh)

- Mae gan CHTh drosolwg dros Heddlu Gogledd Cymru
- Swydd etholedig yw CHTh sydd wedi cymryd rôl a chyfrifoldeb Awdurdod yr Heddlu
- Rôl y CHTh yw gosod blaenoriaethau ar gyfer plismona o fewn cynllun heddlu a throsedd, i osod a rheoleiddio cyllid yr heddlu ac i gynrychioli barn lleol ar blismona.
- Rydym yn falch o'r berthynas waith gref rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r CHTh ar gyfer gogledd Cymru.



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# The Police & Crime Commissioner (PCC)

- The PCC holds strategic oversight for North Wales Police.
- The PCC is an elected position, which replaced the previous Police Authority in role and responsibility
- The role of the PCC is to set out priorities for policing within a police and crime plan, to set and regulate the force budget, and to represent local views on policing.
- We are proud of the strong working relationship between North Wales Police and the PCC for north Wales.

Yn gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU

Making North Wales the safest place to live, work and visit in the UK

# Ffrydiau Gwaith ar y Cyd

- **Safonau Masnachu** – Rydym yn gweithio'n agos gyda Safonau Masnachu, gan gwblhau Ymgyrch Jackal yn ddiweddar, yn targedu gwerthiant 'vapes' anghyfreithlon. **Atafaelwyd gwerth £6500 o 'vapes' anghyfreithlon** yn yr ymgyrch sy'n atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddiogelu ein cymunedau ac iechyd cyhoeddus.

- **Cetamin –** mae'r defnydd o hwn ar gynnydd, wedi eu gysylltu â siopau 'Vape' ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymysg yr ifanc. Rydym yn defnyddio cudd-wybodaeth, yn adnabod pobl o ddiddordeb gyda'r bwriad o orfodi grym.



# Joint Workstreams

- **Trading Standards** – We work closely with YM Trading Standards, recently completing Operation Jackal, targeting the sale of illegal vapes. This operation **seized £6500 of illegal vapes**, and reinforces our commitment to protect our communities and public health.

- **Ketamine** – this is an emerging trend, linked to Vape Shops and youth-related ASB. We are developing the intel picture, persons of interest are identified, with a view to enforcement action taking place.

# Ffrydiau Gwaith Ar y Cyd

- **YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL (ASB) –** Mae gan HGC swyddog ASB yn y Gorllewin sy'n gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael ag ASB o fewn cymunedau. Mae hyn yn defnyddio dull datrys problemau yn seiliedig ar bartneriaeth.

- Gan weithio gyda'n gilydd, mae'r heddlu, y cyngor ac iechyd amgylcheddol yn cwrdd bob mis i drafod lleihau galw a datrysiadau posib



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Joint Workstreams

- **ASB –** NWP has a dedicated ASB officer in the West who works closely with the local authority to resolve ASB within communities. This takes a partnership based, problem solving approach

- Working together, police, council and environmental health meet monthly to discuss demand reduction, and potential resolutions.

# Gweithio yn y dyfodol – Risgiau a Chyfleoedd

# Future Working – Risks and Opportunities

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

- **Ymgyrch Stack** – Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth a'r Awdurdod Lleol i adolygu ymgyrch Stack, ein hymateb ar y cyd i HGVs ar yr A55 ar Ynys Môn os nad ydynt yn gallu mynd ar y llongau

- **Mannau Poblogaidd i Dwristiaid –** mewn ardaloedd lle mae llawer o dwristiaid rydym yn sicrhau ein bod yn cael ein gweld. Mewn ardaloedd poblogaidd iawn fel Niwbwrch rydym yn gweithio ar fesurau atal, hirdymor gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Lleol i wella'r adeiladwaith a lleihau galw.




- **Y Gymraeg** – mae HGC wedi ymrwymo i sicrhau ein bod ni'n cynnig cwrteisi ieithyddol ac yn gallu cynnig ein gwasanaethau yn Gymraeg. Mae 42.1% o'r gweithlu yn gallu siarad Cymraeg lefel 3, sef yn gallu sgwrsio yn Gymraeg.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

- **Operation Stack –** We will work with colleagues in the Welsh Government and Local Authority to review Operation Stack, our joint response to HGVs building up upon the A55 in Anglesey if they are unable to board ferries.

- **Tourist Hot Spots –** high volume tourist areas, we take a high visibility, proactive approach. We recognise at certain high-volume sites, such as Newbrough we are working on preventative, long-term measures with National Resources Wales and the Local Authority to look at improving the infrastructure and reducing demand.

- **The Welsh Language** – NWP is committed to ensuring that we offer linguistic courtesy and that we can provide our services in Welsh. 42.1% of the workforce can speak 'level 3' Welsh, which is conversational Welsh.



% Employees by Spoken Welsh Level
As at 31st March
6/30/2025
2024
2023
2022
2021
2020
2019
2018
2017
2016
2015
2014
2013
2012
2011
2010
2009
2008
2007
2006
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
L0
L1
L2
L3
L4
L5

# Crynodeb

- Mae Ynys Môn yn bartner strategol, tactegol a gweithredol.
- Mae gennym berthynas waith gref ar bob lefel
- Rydym yn hyderus y bydd ein gwaith ar y cyd yn mynd o nerth i nerth

# Summary

- The Isle of Anglesey is a strategic, tactical and operational partner.
- We have a strong working relationship at all levels
- We are confident that our joint working will go from strength to strength

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Tudalen 22

# Diolch – Unrhyw Gwestiynau/ Any questions?

**Manylion cyswllt/Contact details:**

Prif Gwnstabl / Chief Constable Blakeman – A/staffofficers@northwales.police.uk
Uwch Arolygydd / Superintendent Arwel Hughes – arwel.hughes2@northwales.police.uk

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Partneriaethau Strategol – Comisiynydd Heddlu a Throseddu

# Strategic Partnerships – Police and Crime Commissioner

Dirprwy CHTh Wayne Jones

Deputy PCC Wayne Jones

*Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, Cyngor Sir Ynys Môn 15 Gorffennaf 2025*

*Partnership and Regeneration Scrutiny Committee, Isle of Anglesey County Council 15th July 2025*

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

# Trosolwg sefydliadol / Organisational Overview

- Sefydlwyd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn 2012 pan gynhaliwyd etholiadau cyntaf y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Disodlodd SCHTh yr Awdurdod Heddlu.
- Mae cyllideb flynyddol yr SCHTh o £1.5m yn cynrychioli 0.77% o gyfanswm y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2025/26.
- Rydym yn cyflogi 19 o staff.

- The Office of the Police and Crime Commissioner (OPCC) was introduced in 2012 when the first PCC elections were held.  The OPCC replaced the Police Authority.
- OPCC annual budget of £1.5m represents 0.77% of the total budget set for 2025/26
- We employ 19 staff

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Rôl y CHTh / The role of PCC

- Cyflwynwyd rôl y Comisiynydd Heddlu a Throseddu gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.
- Mae gan y Comisiynydd bedwar prif ddyletswydd:
  - Gosod y blaenoriaethau ar gyfer plismona
  - Penderfynu ar y gyllideb
  - Gwrando ar farn y cyhoedd ar blismona ac ymateb iddi
  - Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif

- The role of PCC was introduced by the Police Reform and Social Responsibility Act 2011.
- The Commissioner has four main duties:
  - Set out the priorities for policing
  - Decide the budget
  - Listen and respond to the public's views on policing
  - Hold the Chief Constable to account

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

# Blaenoriaethau allweddol / Key priorities

- Rhaid i bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn dilyn eu hetholiad.
- Mae'r Cynllun yn gosod y blaenoriaethau strategol ar gyfer yr Heddlu.
- Mae'r Prif Gwnstabl yn cael ei ddwyn i gyfrif am gyflawni'r blaenoriaethau hynny.
- Mae'r cynllun cyfredol yn ei le tan 2028 a chytunwyd arno gan y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr.

- Every PCC must publish a Police and Crime Plan by the end of the financial year following their election
- The Plan sets the strategic priorities for the Force
- The Chief Constable is held to account for the delivery of those priorities
- Current plan is in place until 2028 and was agreed by the Police and Crime Panel in January

# Blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throsedd 2025-2028

**1. Presenoldeb Plismona yn y Gymdogaeth Leol**
•Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol
•Troseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt
•Diogelwch ar y Ffyrdd
•Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**2. Cefnogi Dioddefwyr, Cymunedau a Busnesau**
•Trais yn Erbyn Menywod a Merched
•Troseddau Busnes a Manwerthu
•Ymatebolrwydd
•Seiberdroseddu
•Trosedd Casineb
•Caethwasiaeth Fodern, Masnachu Mewn Pobl a Throseddau Mewnfudo Cyfundrefnol

**3. System Gyfiawnder Troseddol Deg ac Effeithiol**
•Cyflawnwyr Trais yn y Cartref
•Panel Dioddefwyr Gogledd Cymru
•Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Moeseg



# Police and Crime Plan 2025-2028 priorities



**1. A Local Neighbourhood Policing Presence**
•Tackling Serious and Organised Crime
•Addressing Rural and Wildlife Crime
•Promoting Road Safety
•Reducing Antisocial Behaviour



**2. Supporting Victims, Communities and Businesses**
•Combating Violence Against Women and Girls
•Preventing Business and Retail Crime
•Improving Responsiveness to Community Needs
•Tackling Cyber Crime and Hate Crime
•Addressing Modern Slavery, Human Trafficking & Organised Immigration Crime



**3. A Fair and Effective Criminal Justice System**
•Managing Domestic Violence Perpetrators
•Engaging with The North Wales Victims' Panel
•Promoting Equality, Diversity, Inclusion and Ethics

# Perthynas gyda HGC / Relationship with NWP

- Perthynas waith cryf iawn, yr ydym yn falch ohoni
- Parch iach at rôl berthnasol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl
- Mae craffu'n digwydd mewn amrywiaeth eang o ffyrdd.  Un o'r prif ffyrdd yw drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol

- Very strong working relationship, which we are proud of
- Healthy respect for the respective role of PCC and Chief Constable
- Scrutiny takes place in a wide variety of ways, one of the main ways is through the Strategic Executive Board.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Gwaith ar y cyd / Joint workstreams

- Diogelwch ffyrdd
- Troseddau gwledig a bywyd gwyllt
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Troseddau Difrifol a Threfnedig
- Bwrdd Bregusrwydd a Camfanteisio
- Fforwm Darparwyr Caethwasiaeth Fodern

- Road safety
- Rural and wildlife crime
- Anti Social Behaviour
- Serious and Organised Crime
- Vulnerability & Exploitation Board
- Modern Slavery Providers Forum

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Dyfodol – Risgiau a chyfleoedd / Future risks and opportunities

- Adolygiad annibynnol o CCTV

- Independent review of CCTV

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Gwasanaethau a Gomisiynwyd / Commissioned Services

- Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn comisiynu nifer o wasanaethau ledled Gogledd Cymru, ac mae pob un ohonynt ar gael i gefnogi pobl Ynys Môn.
- The PCC commissions a number of services across North Wales, all of which are in place to support the people of Anglesey

- Canolfan Cymorth Dioddefwyr / Victim Help Centre
- DASU
- Cymorth i oroeswyr cam-drin rhywiol / Support for survivors of sexual abuse.
- Brake
- AAFDA
- Get Safe Online
- Gwynedd a Môn YJS
- Cronfeydd Grantiau Bach / Small Grant Funds
- Arloesi i Dyfu / Innovate to Grow
- PDC / CSP

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Diolch yn fawr iawn, Unrhyw gwestiynau?

# Thank you, Any questions?

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **15 Gorffennaf, 2025** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Amherthnasol | |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Anwen Davies | Rheolwr Sgriwtini |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2025/26

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Gofynnir i'r Pwyllgor:
**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2025/26
**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Amherthnasol



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2025/26 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Amherthnasol |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2025

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy’n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Amherthnasol |

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor eu hystyried. |

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 8. Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2025/26 |

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2025 → EBRILL, 2026
**[Fersiwn dyddiedig 03/07/25]**

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2025 ( 20/05/2025)** | **Mai, 2025 (20/05/2025)** |
| Ethol Cadeirydd: 2025/26 | Ethol Cadeirydd: 2025/26 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 | Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 |
| | |
| **Mai, 2025 (21/05/2025)-Cyfarfod Ychwanegol** | |
| Canlyniadau'r Ymgysylltiad ar y Ddarpariaeth Addysg Ôl-16 | |
| Adeilad Ysgol Uwchradd Caergybi | |
| | |
| **Mehefin, 2025 (17/06/2025) – Ch4** | **Mehefin, 2025 (12/06/2025) – Addysg / Y Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2024/25 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2024/25<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Mesur Cynnydd→2024/25 |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2025/26 | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd] |
| Atgyweirio To Adeilad Canolfan Addysg y Bont: Gwersi a Ddysgwyd | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** | **Gorffennaf, 2025 (15/07/2025) - Gwasanaethau Brys** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Heddlu Gogledd Cymru |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Medi, 2025 (17/09/2025) – Ch1** | **Medi, 2025 (16/09/2025) – Cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2025/26 | Grŵp Llandrillo Menai |
| Argymhellion Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai'r Cyngor – diweddariad ar gynnydd | Prifysgol Bangor |
| Aelodaeth y Panelau Sgriwtini | Aelodaeth y Panelau Sgriwtini |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Hydref, 2025 (15/10/2025)** | **Hydref, 2025 (14/10/2025) – Trosedd ac Anrhefn** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2024/25 | Menter Môn |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2024/25 |
| Canlyniadau'r Ymgynghoriad ar y Cynnig i Adleoli Dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i Adeilad Ysgol Newydd ar gyfer Dysgwyr 11-18 Oed | |
| Moderneiddio Cymunedau Dysgu: Achos Busnes (eitem eithriedig) | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2024/25<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2025/26 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Tachwedd, 2025 (18/11/2025) - Ch2** | **Tachwedd, 2025 (13/11/2025) – Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2025/26 | Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd |
| Cynllun Strategol Tuag at Sero Net: 2022/25 – adroddiad diwedd cyfnod (i'w gadarnhau) | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2024/25 | Cynllun Strategol Digidol Addysg |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | **Tachwedd, 2025 (26/11/2025) – Iechyd** |
| | Archwilio Cymru: Adroddiad Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o’r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru-mesur cynnydd |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| **Ionawr, 2026 (21/01/2026) – Cyllideb 2026/27 (bore)** | **Ionawr, 2026 (20/01/2026)** |
| Sefydlu Cyllideb 2026/27 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd] |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn:<br>• Adroddiad Blynyddol 2024/25<br>• Trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu’r Cynllun Llesiant |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Ionawr, 2026 (21/01/2026) (prynhawn)** | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | |
| | |
| **Chwefror, 2026 (18/02/2026) – Cyllideb 2026/27** | **Chwefror, 2026 (12/02/2026) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2026/27 – refeniw a chyfalaf | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| | Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (i’w gadarnhau) |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Mawrth, 2026 (18/03/2026) - Ch3** | **Mawrth, 2026 (17/03/2026)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2025/26 | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2026/2056 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2024/25 |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn – mesur cynnydd |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3:2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Ebrill, 2026 (22/04/2026)** | **Ebrill, 2026 (21/04/2026)-Taclo Tlodi** |
| | Cyngor ar Bopeth Ynys Môn |
| | Medrwn Môn |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2024/25 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |

**Eitemau i’w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Cyfrifiad 2021 | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau’r Gymraeg | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2024-2034– Ystad Mân-ddaliadau | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| Adroddiad Cynnydd Ch4: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | Ardoll Twristiaeth Lleol i Gymru |
| Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch | Cynllun Strategol Tuag at Sero Net |
| Cynllun Strategol Chwarae | Digartrefedd Ynys Môn |
| | Cynllun Ynni Ardal Leol |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |